SUL CYFFREDIN 17

**EXODUS 3:1-15; SALM 105:1-6, 23-26, 45C;
RHUFEINIAID 12:9-21; MATHEW 16:21-28**

● **Gweddi agoriadol**
Bendithia gyfarfod ein bywydau heddiw,
yr offrwm a ddygwn
mewn corff, meddwl ac enaid.

Bendithia'r gwasanaeth a gyflwynwn
yn y gymdeithas hon
a ble bynnag y byddwn.

Bendithia gyfarfod ein bywydau heddiw.

● **Moliant**
Arweinydd: Rwyt yn Dduw mawr!
Pawb: Yn deilwng o'n moliant!

Cyhoeddwn dy enw,
dywedwn am dy ryfeddodau,
rhannwn dy ddirgelwch,
dy wirionedd a'th ddoethineb,
ceisiwn dy bresenoldeb wastad.

Arweinydd: Rwyt yn Dduw mawr!
Pawb: Yn deilwng o'n moliant!

Ymhyfrydwn yn dy enw,
cerddwn yn ôl dy droed,
gwrandawn ar dy air,
ymddiried ac ufuddhau,
canu dy glod bob amser.

Arweinydd: Rwyt yn Dduw mawr!
Pawb: Yn deilwng o'n moliant!

Gwasanaethwn yn dy enw,
mynegwn dy drugaredd,
rhoi yn hael,
cario croes,
dangos dy faddeuant wastad.

Arweinydd: Rwyt yn Dduw mawr!
Pawb: Yn deilwng o'n moliant!

● **Cyffes**
Er i'n bywydau lawer tro
fethu llonni dy galon,
Arglwydd, maddau.
Dygaist heddwch, amynedd,
maddeuant a gras
i fyd aflonydd.
Dygwn ninnau ddiffyg amynedd,
diffyg goddefgarwch ac ofn,
pethau nad ydynt yn dy ogoneddu di.

Er i'n bywydau lawer tro
fethu llonni dy galon,
Arglwydd, maddau,
ac adfer ynom
y cariad a nabyddem gynt,
fyddai'n dilyn
ble bynnag yr arweiniet,
ac yn ufuddhau
pryd bynnag y galwet.
Arglwydd, trugarha.

● **Diolch**

Arglwydd, daethost
a galw nid yn unig yr ychydig
i fod yn ddisgyblion i ti
i gerdded gyda thi
yng Ngalilea,
ond i gael dy adnabod
ymysg y cenhedloedd
yn Arglwydd a Brenin.

Arglwydd, daethost
i fod yn Waredwr
nid yn unig i'r bobl
y buost fyw yn eu plith,
ond i bawb sy'n codi croes
ac yn dy ddilyn.

Diolch, Arglwydd –
daethost er ein mwyn ni.